



BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU

CYNLLUN BUSNES BLYNYDDOL

2017-18

BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU

CYNLLUN BUSNES 2017-18

Tabl Cynnwys:	Rhif Tudalen
Datganiad Cenhadaeth	3
Crynodeb o Welliannau	3
<u>Amcanion Gwella</u>	
Mae BDPGC a'r is-grwpiau'n parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd.. ..	4
Sut mae BDPGC yn cydweithio â Byrddau, Partneriaethau, pobl/cyrff eraill yn ei weithgarwch	8
Sut mae BDPGC yn lledaenu'r hyn a ddysgir o'r Adolygiadau Ymarfer Plant.. ..	10
Sut mae BDPGC yn ymgysylltu gyda phlant a phobl ifancyn rhagweithiol i sicrhau eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan	12
<u>Gwybodaeth y Bwrdd</u>	
Blaenoriaethau Strategol a Deilliannau	14
Aelodaeth Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru	16
Gwybodaeth Ariannol	17

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Datganiad Cenhadaeth

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) wedi mabwysiadu'r dull AAP wrth gynllunio busnes, sef Atal, Amddiffyn a bod yn Barod, sydd wedi'u cynnwys yn nhri datganiad cenhadaeth y bwrdd.

1. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn **ATAL** plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.
2. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn **AMDDIFFYN** plant yn ei ardal sy'n profi neu sydd mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.
3. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn **BAROD** i fod yn bennaf gyfrifol am herio asiantaethau i sicrhau bod mesurau effeithiol yn eu lle i **AMDDIFFYN** ac **ATAL**.

Mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, mae AAP yn troi'n AAPE, gan gynnwys **ERLID**.

Crynodeb o Welliant 2017/18

Dyma amcanion gwella BDPGC. Bydd BDPGC yn canolbwyntio ar yr amcanion hyn ochr yn ochr â'i flaenoriaethau strategol a'i faterion craidd. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar 4 maes i'w gwella:

1. Mae BDPGC a'r is-grwpiau'n parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd.
2. Sut mae BDPGC yn cydweithio â Byrddau, Partneriaethau, pobl/cyrff eraill yn ei weithgarwch.
3. Sut mae BDPGC yn lledaenu'r hyn a ddysgir o'r Adolygiadau Ymarfer Plant.
4. Sut mae BDPGC yn mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael cyfle i gyfrannu.

Gwelliant 1: Mae BDPGC a'r is-grwpiau'n parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd

Crynodeb o'r Gwelliannau Angenrheidiol:

1. Cynnal Uned Fusnes sefydlog a fydd yn cefnogi BDPGC a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC)
2. Sicrhau bod BDPGC yn cydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
3. Cynnal cofnod presenoldeb da ar y lefel gywir a mandad yng nghyfarfodydd y Bwrdd
4. Sicrhau bod yr holl asiantaethau yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r is-grwpiau a sicrhau bod sefydlogrwydd o ran trefniadau cadeirio'r is-grwpiau.

Meysydd Blaenoriaeth	Ble rydym arni nawr?	Beth sydd angen ei wella?	Beth rydym angen ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?
Cynnal Uned Fusnes sefydlog a fydd yn cefnogi BDPGC a BDOGC.	Sefydlwyd uned fusnes a oedd yn gwasanaethu BDPGC ym mis Mawrth 2015. Ar hyn o bryd, mae Rheolwr Busnes rhan amser dros dro wedi'i benodi (bydd Rheolwr Busnes sydd newydd gael ei benodi'n cychwyn y swydd ar 1 Gorffennaf 2017). Mae dau o Gydlynwyr Busnes y Bwrdd wedi'u secondio ar hyn o bryd, a chymhorthydd gweinyddol a rennir. Bydd swyddi sy'n cael eu hysbysebu'n rhai parhaol.	Sefydlu a chynnal Uned Fusnes sefydlog er mwyn sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud a'i gydlynu mewn modd cynhyrchiol.	Gorffen recriwtio i bob swydd o fewn yr Uned Fusnes er mwyn galluogi cymorth sefydlog a chynaliadwy i'r Byrddau a'u his-grwpiau.	BDPGC / BDOGC	Llenwi'r holl swyddi a chynnydd o ganlyniad i hynny ar ddyletswyddau statudol a blaenoriaethau strategol y Bwrdd.

	Cyfnod o drosglwyddo o un awdurdod cynnal i un arall, ar hyn o bryd.				
Sicrhau bod BDPGC yn cydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	<p>Wedi ymgymryd â rhaglen helaeth o hyfforddiant diogelu ar gyfer staff awdurdodau lleol ar draws gogledd Cymru.</p> <p>Adolygu fframwaith statudol a chanllawiau statudol cenedlaethol, allweddol a gyflwynwyd: Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (Cyfrol 2 Adolygiadau Ymarfer Plant); Trin Achosion Unigol i Ddiogelu Plant Agored i Niwed (Cyfrol 6); Adolygu'r Canllawiau Statudol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac adolygiad i ddod ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.</p> <p>Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol (adran 145 y Ddeddf</p>	<p>Hyfforddiant ar gyfer partneriaid amlasiantaeth.</p> <p>Hyfforddiant ar gyfer asiantaethau partner a gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu.</p> <p>Cyfrannu at ymgynghoriadau.</p> <p>Sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau terfynol.</p>		BDPGC Rheolwr Busnes	<p>Cofnodion hyfforddiant.</p> <p>Cydymffurfio mewn archwiliadau ymarfer.</p> <p>Adborth cenedlaethol.</p> <p>Arolwg gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.</p>

	Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant).				
Cynnal cofnod presenoldeb da ar y lefel gywir yng nghyfarfodydd y Bwrdd.	Aelodaeth anghyson gan rai asiantaethau.	Aelodau sydd wedi'u dynodi'n briodol, sy'n gallu dod i gyfarfodydd yn gyson.		BDPGC a'r holl asiantaethau.	Cofnod presenoldeb ac adroddiadau uchafbwyntiau.
Mae gan BDPGC gyfrifoldeb i herio eraill nid yn unig ar eu cyfraniad i'r Bwrdd ond ar ansawdd arferion diogelu asiantaethau partner hefyd. Sefydlu a chynnal arferion herio cyfoedion.	Mae elfen gynyddol o her ar arferion diogelu.	Mae angen i BDPGC fireinio a gwella graddfa her a phennu cyfrifoldebau'r aelodau i herio a dwyn ei gilydd i gyfrif. Rhaid bod yn barod i ymateb yn gadarnhaol i her.	Adolygiad o Gylch Gorchwyl a Rolau a Chyfrifoldebau. Datblygu system gadarn o her, diwylliant o dderbyn her ac o ymateb yn gadarnhaol.	BDPGC Rheolwr Busnes BDGC	Adroddiadau Cyfraniad i'r Bwrdd. Defnydd o aelodau annibynnol fel 'cyfeillion beirniadol'. Ceisiadau am wybodaeth dan a. 137.
Sicrhau bod yr holl asiantaethau yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r is-grwpiau a sicrhau bod sefydlogrwydd o ran trefniadau cadeirio'r is-grwpiau.	Mae trefniadau cadeirio'r Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau bellach yn sefydlog ac mae wedi cael blwyddyn gynhyrchiol iawn yn datblygu polisiâu a phrotocolau a nodwyd yn flaenoriaethau. Bellach, mae cadeirydd cyson ar y Grŵp Gweithlu a Hyfforddiant, mae cylch gorchwyl a	Aelodau sydd wedi'u dynodi'n briodol, sy'n gallu dod i gyfarfodydd yn gyson. Cynnal momentwm a datblygu cynlluniau gwaith. Sicrhau bod asiantaethau'n cefnogi eu gweithwyr sy'n	Monitro cynnydd a'i gyfeirio at y Bwrdd, os oes angen. Cyfarfodydd chwarterol rhwng cadeiryddion yr is-grwpiau.	BDPGC Rheolwr Busnes a'r Uned Fusnes	Bydd yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau unigol yr asiantaethau ac yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd. Cynhyrchiant grwpiau.

	<p>rhaglen waith newydd wedi'u cytuno ac mae opsiynau ar gyfer mwy o gydweithio'n cael eu hystyried a'u datblygu. Mae Cadeirydd sefydlog yn dal i fod ar Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant. Mae peth aelodaeth anghyson wedi bod. Rhywfaint o drafferth cael gafael ar adolygwyr mewnol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant.</p> <p>Mae Bwrdd Gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi'i sefydlu erbyn hyn ac mae'n cael ei gadeirio ar lefel Prif Weithredwr. Mae'r aelodau o statws briodol er mwyn sicrhau bod Cynllun Gweithredu ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei ddatblygu'n llawn.</p>	<p>ymgyrdd â dyletswyddau adolygu.</p>			
--	--	--	--	--	--

Gwelliant 2: Sut mae BDPGC yn cydweithio â Byrddau, Partneriaethau, pobl/cyrff eraill yn ei weithgarwch

Crynodeb o'r Gwelliannau Angenrheidiol:

1. Datblygu trefniadau rhwng partneriaethau statudol a rhai anstatudol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd o ran diogelu
2. Gwella cysylltiadau a threfniadau gweithio gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru er mwyn gwella dull cyfannol o ddiogelu unigolion
3. Creu cysylltiadau â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a gwella cysylltiadau â Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill er mwyn rhannu arferion da, meysydd ar gyfer dysgu a gwella a chyfrannu at ddulliau diogelu cyson ledled Cymru

Meysydd Blaenoriaeth	Ble rydym arni nawr?	Beth sydd angen ei wella?	Beth rydym angen ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?
Datblygu trefniadau rhwng partneriaethau statudol a rhai anstatudol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd o ran diogelu.	Mae BDPGC yn ymwybodol o drefniadau partneriaethau lleol a rhanbarthol sy'n gysylltiedig â diogelu plant. Nid oes unrhyw drefn adrodd ffurfiol rhwng y partneriaethau a'r unigolion hyn.	Mae BDPGC yn fwrdd statudol a dylai geisio sicrwydd ynglŷn â gwaith yr holl bartneriaethau a grwpiau eraill.	Sefydlu trefniadau atebolrwydd clir rhwng y Bwrdd Diogelu, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Cynllunio Ardaloedd, Byrddau / Partneriaethau Cymunedau Mwy Diogel, Cydlyniant Masnachu Mewn Pobl.	Cadeirydd / Rheolwr Busnes	Dealltwriaeth gynhwysfawr o weithgarwch diogelu pob partneriaeth. Llai o ddyblygu. Gallu dylanwadu ar raglenni diogelu.
Gwella cysylltiadau a threfniadau gweithio gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru er mwyn gwella dull cyfannol o ddiogelu unigolion.	Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'r Rheoliadau yn nodi swyddogaethau a gweithdrefnau cyffredin sy'n perthyn i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'r Bwrdd Diogelu Plant.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae angen alinio Cylchoedd Gorchwyl y Byrddau. 2. Dylid darparu adroddiadau a diweddariadau o uchafbwyntiau pob Bwrdd. 3. Rhannu Blaenoriaethau 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl. 2. Sefydlu eitem sefydlog ar yr agendaar bob Bwrdd. 3. Adolygu pa is-grwpiau allai uno. 	Rheolwr Busnes	Cylch Gorchwyl sy'n adlewyrchu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae Aelodau'n gwybod am y gwaith a wnaed gyda phlant ac oedolion.

	<p>Ers mis Medi 2016, mae'r Uned Fusnes yn gwasanaethu'r ddau Fwrdd.</p> <p>Mae'r ddau Fwrdd yn rhannu un gyllideb ac un wefan.</p> <p>Is-grŵp Gweithlu a Hyfforddiant ar y cyd.</p>	<p>Strategol Perthnasol – er enghraifft, Cam-drin Domestig.</p>			<p>Mwy o gydweddu, gan arwain at well canlyniadau i unigolion sydd angen gofal a chymorth ac sydd angen eu diogelu.</p>
<p>Creu cysylltiadau â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC) a gwella cysylltiadau â Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill er mwyn rhannu arferion da, meysydd ar gyfer dysgu a gwella a chyfrannu at ddulliau diogelu cyson ledled Cymru.</p>	<p>Mae swyddogaeth y BDAC wedi'i nodi mewn deddfwriaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae Cadeirydd y BDAC yn aelod ar BDPGC. 2. Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cadeirydd BDPGC a'r Rheolwr Busnes. 3. Cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheolwyr busnes ledled Cymru. 	<p>Unedau Busnes ledled Cymru'n cyfarfod fesul chwarter blwyddyn. I gynnwys aelodau staff eraill yn ogystal â'r Rheolwyr Busnes.</p> <p>Rhannu dogfennau a thempledi ac arferion da ledled Cymru.</p>	<p>Gweithio tuag at ddatblygu dogfennau a fframwaith adrodd a rennir.</p>	<p>Rheolwr Busnes a'r Cydlynnydd Busnes</p>	<p>Trefniadau adrodd cadarn.</p> <p>Cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau.</p> <p>Llwyddiant yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol.</p>

Gwelliant 3: Sut mae BDPGC yn lledaenu'r hyn a ddysgir o'r Adolygiadau Ymarfer Plant

- Crynodeb o'r Gwelliannau Angenrheidiol:**
1. Sicrhau bod y gwersi a ddysgir drwy Adolygiadau Ymarfer Plant yn cael eu rhannu â phob asiantaeth
 2. Sicrwydd bod arferion a pholisïau asiantaethau wedi newid o ganlyniad i Adolygiadau Ymarfer Plant
 3. Rhannu tueddiadau sydd i'w gweld a'r gwersi a ddysgir yn fwy aml ledled Cymru

Meysydd Blaenoriaeth	Ble rydym arni nawr?	Beth sydd angen ei wella?	Beth rydym angen ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?
Sicrhau bod y gwersi a ddysgir drwy Adolygiadau Ymarfer Plant yn cael eu rhannu â phob asiantaeth.	<p>Mae Adolygiadau Ymarfer Plant lleol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i Grwpiau Cyflawni Lleol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am eu monitro.</p> <p>Cynhaliodd Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant BDPGC Ddiwrnod Busnes ym mis Awst 2016 i ystyried sut mae creu Cynlluniau Gweithredu CAMPUS (SMART).</p> <p>Trefnodd Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant Sioe Deithiol ym mis Rhagfyr 2016 i fynd i'r afael â thema Addysg Ddewisol yn y Cartref. Lansiodd y</p>	<p>Adroddiadau AYP yn cael eu rhannu'n eang o fewn asiantaethau ac yn cael eu defnyddio fel adnodd i waith goruchwyllo grŵp.</p> <p>Asiantaethau'n cyfeirio ymarferwyr at y wefan.</p> <p>Cydweddu clir rhwng yr Adolygiadau Ymarfer Plant, a'r is-grwpiau Polisïau a Gweithdrefnau aGweithlu a Hyfforddiant er mwyn datblygu meysydd a nodwyd yn flaenoriaethau.</p>	<p>Pob blwyddyn, dylai fod adroddiad thematig wedi'i gomisiynu gan BDPGC mewn perthynas â gwersi lleol a ddysgwyd ac o ran ystyried y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adolygiadau achosion difrifol ar gyfer yr un cyfnod hefyd.</p> <p>Sicrhau bod y wefan yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.</p>	Cadeirydd Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant Rheolwr Busnes	

	<p>Cynllun Llwybr Amlasiantaeth Cyn Geni yn y digwyddiad hwn.</p> <p>Mae pob adroddiad AYP yn cael ei roi ar wefan y Bwrdd, ynghyd â nodyn am 'Wersi a Ddysgwyd'.</p>				
<p>Sicrwydd bod arferion a pholisïau asiantaethau wedi newid o ganlyniad i Adolygiadau Ymarfer Plant.</p>	<p>Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro a'u hadolygu gan Grwpiau Cyflawni Lleol.</p> <p>Mae asiantaethau wedi gosod a chytuno ar amserlen o ran dod â chynlluniau gweithredu yn eu holau gerbron yr Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant 12 mis ar ôl iddynt gael eu cwblhau er mwyn profi bod yr hyn a ddysgwyd wedi'i roi ar waith.</p>	<p>Cyflwyno trefniadau i asiantaethau adrodd ar welliannau o ran arferion a pholisïau.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant. 2. Dyddiad penodol i bob asiantaeth adrodd yn ôl i Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant, 12 mis wedi'r dyddiad cyflwyno i BDPGC, ar newidiadau i arferion a pholisïau. 	<p>Cadeirydd Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant Rheolwr Busnes Pob aelod o Grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gostyngiad yn nifer y materion / themâu tebyg sy'n codi o adolygiadau. 2. Argymhellion a chynlluniau gweithredu CAMPUS (SMART).
<p>Rhannu tueddiadau sydd i'w gweld a'r gwersi a ddysgir yn fwy aml ledled Cymru.</p>	<p>Dylai argymhellion Adolygiadau Ymarfer Plant amlygu dysgu ar lefel genedlaethol.</p> <p>Dylid defnyddio cyfarfodydd a sefydlwyd yn</p>				

	<p>ddiweddar rhwng Llywodraeth Cymru â Chadeiryddion y Bwrdd.</p> <p>Mae cyfarfod chwarterol rheolwyr busnes rhanbarthol yn galluogi hyn.</p>				
--	---	--	--	--	--

Gwelliant 4: Sut mae BDPGC yn mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael cyfle i gyfrannu

Crynodeb o'r Gwelliannau Angenrheidiol:

1. Rhoi cyfle i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan arfer swyddogaeth BDPGC gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd

Meysydd Blaenoriaeth	Ble rydym arni nawr?	Beth sydd angen ei wella?	Beth rydym angen ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?
Rhoi cyfle i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan arfer swyddogaeth BDPGC gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.	<p>1. Bu BDPGC yn Eisteddfod yr Urdd yn 2016 a chafwyd cyfle i drafod gwaith y Bwrdd gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.</p> <p>2. Ym mis Mawrth 2016, gofynnodd BDPGC i 1,000 o ddisgyblion Blwyddyn 9 beth roeddent yn poeni amdano. Cadarnhaodd y canlyniadau bod % uchel yn poeni am</p>	<p>O leiaf un waith y flwyddyn, mae'n rhaid i Fyrddau Diogelu roi'r cyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn un neu fwy o ddigwyddiadau gwaith y Bwrdd.</p> <p>Mae angen hyrwyddo BDPGC yn well yn ystod yr Wythnos Ddiogelu flynyddol.</p>	<p>1. Cynnwys llais plant a phobl ifanc ym mhrosesau cyfathrebu'r Bwrdd.</p> <p>2. Casglu barn plant a phobl ifanc yn awtomatig, yn hytrach nag ôl-ystyriaeth.</p> <p>3. Datblygu proses werthuso er mwyn sicrhau bod yr adborth a dderbynnir yn ystyrlon.</p> <p>4. Ystyried comisiynu menter wirfoddol i</p>	BDPGC	<p>1. Nifer o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.</p> <p>2. Natur y rhan honno yn y gwaith.</p> <p>3. Gwerthuso gweithgarwch.</p>

	Gam-drin Domestig a thecstio rhywiol.		drefnu digwyddiad i blant a phobl ifanc.		
--	--	--	---	--	--

Blaenoriaethau Strategol

Mae'r tri maes canlynol wedi'u nodi'n flaenoriaethau strategol i'r Bwrdd

1. Camfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant sydd ar goll o ofal
2. Plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol
3. Cam-drin domestig

DEILLIANNAU

Canlyniad Trosgynnol: Bydd BDPGC gyda'i bartneriaid yn gweithio mewn partneriaeth yn rhagweithiol i ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol yng Ngogledd Cymru.	
ATAL	Ei gwneud yn fwy anodd i fanteisio ar blant drwy: <ol style="list-style-type: none">1. Ddarparu hyfforddiant cydlynol effeithiol o fewn asiantaethau a thrwy gyflawni rhaglen ymwybyddiaeth yn y gymuned ac mewn ysgolion.2. Datblygu strategaeth gyfathrebu a chyfryngau aml-asiantaeth i sicrhau bod negeseuon cyson a chywir yn cael eu rhannu gyda phawb, i gefnogi ymwybyddiaeth y cyhoedd.
AMDDIFFYN	Adnabod ac Amddiffyn plant sydd mewn perygl drwy: <ol style="list-style-type: none">1. Sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau amlasiantaethol yn effeithiol, effeithlon ac yn addas ar gyfer eu pwrpas.2. Sicrhau bod plant sy'n profi a phlant sydd mewn perygl o brofi camfanteisio rhywiol yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi'n effeithiol.
PAROD	Bod â gweithlu a chymuned sy'n Barod i drechu camfanteisio rhywiol ar blant drwy: <ol style="list-style-type: none">1. Godi ymwybyddiaeth ymysg gweithlu'r asiantaethau o gamfanteisio rhywiol.2. Ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu i staff ar wahanol lefelau.3. Ddarparu pecyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i arweinwyr a gweithwyr cymunedol.4. Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod am y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw.
ERLID	Adnabod troseddwy'r a'u gweithgarwch, ac amharu ar eu gweithgarwch a'u hataldrwy: <ol style="list-style-type: none">1. Ymdrechu i ddod o hyd i "fannau problemus" ac amharu arnynt.2. Erllyn troseddwy'r.

Canlyniad Trosgynnol: Gwella'r ymatebion amlasiantaeth i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.	
ATAL	Lleihau achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol drwy: <ol style="list-style-type: none">1. Fod â dull amlasiantaeth cydlynol a chyson i rwystro a mynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol.2. Cynnal asesiadau adnabod cynnar sy'n ystyried anghenion lles ehangach gyda phlant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.3. Datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o'r cysylltiad rhwng ffactorau risg cyfrannol a dealltwriaeth bod plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol sy'n achosi pryder neu sy'n niweidiol yn debygol o fod ag anghenion amlochrog a chymhleth. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r angen i ystyried ystod o

	strategaethau allweddol wrth ymateb gan gynnwys y cysylltiad clir â Cham-drin Plant yn Rhywiol, Camfanteisio Rhywiol, E-ddiogelwch, a Cham-drin Domestig.
AMDDIFFYN	Amddiffyn plant sy'n ddioddefwyr ac yn droseddwyr trwy: <ol style="list-style-type: none"> 1. Gynnig gwybodaeth ddi-ragfarn ac annifriol i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr. 2. Sicrhau nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei labelu o ganlyniad i adnabod ymddygiad rhywiol niweidiol, ond sicrhau eu bod, ar yr un pryd, yn cael eu dwyn i gyfrif.
PAROD	Bod Gofalwyr Maeth, Staff Preswyl, Rhieni a Gweithwyr Proffesiynol yn: <ol style="list-style-type: none"> 1. Derbynn hyfforddiant a chynghor o safon uchel am ddatblygiad ymddygiad rhywiol arferol a sut i ymateb i ymddygiad rhywiol problemus. 2. Deall continwwm ymddygiad rhywiol ac nad ydynt yn pryderu.

Canlyniad Trosynnol: Mae profiadau a chanlyniadau yn well ar gyfer plant sydd wedi, neu sy'n byw gyda chamdriniaeth ddomestig.	
ATAL	Bydd BDPGC yn sicrhau bod pob asiantaeth yn atal camdriniaeth yn effeithiol yn unigol ac ar y cyd, gan gynnwys ffurfiau penodol o gamdriniaeth ddomestig fel priodasau gorfodol, radicaliaeth a lladd ar sail anrhydedd, drwy: <ol style="list-style-type: none"> 1. Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn adnabod ac yn deall pan maent yn cael eu cam-drin a bod ganddynt y wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw i gael cefnogaeth sy'n addas i'w hoedran. 2. Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall beth yw perthnasoedd iach a'u bod nhw'n gallu ffurfio rhai. 3. Sicrhau y cydymffurfir â gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
AMDDIFFYN	Gwella'r gallu i'w weld, annog datgelu a sicrhau bod ymateb addas yn syth drwy: <ol style="list-style-type: none"> 1. Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gallu gweld arwyddion cam-drin domestig ac yn annog datgelu. 2. Darparu cymorth cynhwysfawr i'r rhai sydd wedi profi cam-drin domestig. 3. Sicrhau y cydymffurfir â gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
PAROD	Bydd BDPGC yn deall graddau Cam-drin Domestig mewn teuluoedd ledled Gogledd Cymru yn well drwy: <ol style="list-style-type: none"> 1. Wella prosesau dadansoddi data. 2. Gweithio mewn ysgolion a chymunedau i godi ymwybyddiaeth o beth yw camdriniaeth ddomestig a hyrwyddo dealltwriaeth o berthnasoedd iach a thrais rhywiol.

AELODAETH BDPGC

Aelod	Asiantaeth
Jenny Williams (Cadeirydd)	Conwy
Judith Magaw (Is-gadeirydd)	Y Gwasanaeth Prawf
Aideen Naughton	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Andy Jones	Y Gwasanaeth Prawf
Anwen Hughes	Gwasanaethau Plant Ynys Môn
Awen Morwena Edwards	Gwynedd
Bethan Jones	BDPGC
Caroline Turner	Gwasanaethau Plant Ynys Môn
Ceri Williams (Adran y Gyfraith)	Conwy
Christine Hinton	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Clare Field	Wrecsam
Craig MacLeod	Sir y Fflint
David Beard	Barnardos
Debbie Lambe	Conwy
Donna Dickenson	Wrecsam
Gill Harris	BIPBC
Jane Davies	Sir y Fflint
Jill Timmins	BIPBC
Jo Ramessur-Williams	HGC
Karen Evans	Sir Ddinbych
Kate Devonport	Conwy
Lindsay Groves	BIPBC
Margaret Flynn	Bwrdd Diogelu Cenedlaethol
Marian Parry Hughes	Gwynedd
Mark Parry	NSPCC
Meinir Williams-Jones	Barnardo's
Neil Ayling	Sir y Fflint
Nicola Stubbins	Sir Ddinbych
Nikki Harvey	Gwasanaeth Ambiwlans
Paula Whittaker	BIPBC
Rachel Shaw	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Non Davies	Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
Susan Evans	Wrecsam

Bwrdd Diogelu Oedolion a Phlant Gogledd Cymru

Cyllideb / Gwariant ar y Cyd

2016/17 Cyllideb a Gwariant		
INCWM		Swm
Cyfanswm Cyllid cyfraniadau partneriaid		£218,562
Cyfraniad wrth gefn a gariwyd ymlaen		£279,866
Cyfraniad gan Ysgolion – Drama ERhP (£100 yr ysgol)		£ 5,400
CYFANSWM INCWM		£503,828
GWARIANT	Swm	
STAFFIO		
Cyfanswm Costau Stafio	£173,148	
Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion		
Cyfanswm Costau AYP & AYO	£37,000	
Costau Gweinyddol		
Cyfanswm costau gweinyddol	£18,500	
DIGWYDDIADAU		
CYFANSWM DIGWYDDIADAU	£21,000	
HYFFORDDIANT		
Cyfanswm Hyforddiant	£13,000	
Cynllyn Gweithredu ERhP		
Drama Theatr ERhP	£35,000	
CYFANSWM GWARIANT	£297,648	
Wrth gefn i'r Dyfodol	£206,180	